# Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS(2)-06-07(p.14)

### Dyddiad: 14 Mawrth 2007
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgor 2, Senedd, National Assembly for Wales
### Teitl: Comisiynu Trefniadau ar gyfer cleifion mewnol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) ledled Cymru

#### Diben

Dyma bapur i'r Pwyllgor nodi'r datblygiadau diweddaraf o ran Comisiynu Trefniadau ar gyfer gwl? CAMHS i gleifion mewnol ledled Cymru.

#### Crynodeb/Argymhellion

Mae'r papur hwn yn nodi'r camau sydd i'w cymryd wedi Cyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Chwefror 2007.

Comisiwn Iechyd Cymru (CIC) sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau Haen 4 i gleifion mewnol CAMHS ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae dwy o unedau'r GIG ar gyfer cleifion mewnol wedi'u comisiynu yng Nghymru - un yn y De a'r llall yn y Gogledd. Mae CIC hefyd wedi comisiynu nifer o wl?yn y sector annibynnol ar gyfer cleifion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu trin mewn ward generig - megis cleifion diogelwch canolig a chleifion fforensig.

Uned Harvey Jones yw'r uned yn y De, sydd ar agor 24/7 ac wedi'i lleoli ar safle'r Eglwys Newydd yng Nghaerdydd. Mae'r uned yn rhan o Ymddiriedoaleth GIG Caerdydd a'r Fro ar hyn o bryd, ond mae'r gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo i Ymddiriedolaeth Pontypridd a Rhondda o 1 Ebrill 2007. Mae CIC yn bwriadu ymgynghori ? cyhoedd ynghylch cynlluniau i ddatblygu gwasanaeth CAMHS newydd i gleifion mewnol yn y De ym mis Mai 2007. Maent yn argymell defnyddio llety Glanrhyd am y tro, a fydd ar gael yng ngwanwyn 2008, tra bo cyfleusterau parhaol yn cael eu hadeiladu ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru erbyn 2010. Bydd yn rhaid i Bontypridd a Rhondda hefyd fod yn gyfrifol am y gwaith i symud i safle Glanrhyd dros dro a'r gwaith parhaol ar Ysbyty Tywysoges Cymru. Wrth symud i Glanrhyd bydd nifer y gwl?yn cynyddu o 14 o wl?CAMHS generig i 14 a 5 gwely brys/ dibyniaeth uchel ychwanegol.

Yn Cedar Court ym Mae Colwyn y mae uned y Gogledd, ac mae wedi'i chomisiynu gan Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych. Bydd yr uned newydd arfaethedig yn cael ei hadeiladu ar safle Abergele a bydd honno hefyd yn cael ei chomisiynu gan Ymddiriedolaeth Conwy a Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd mae gan Cedar Court 12 gwely ac mae ar agor am 5 diwrnod yr wythnos. Mae CIC yn trafod ? ymddiriedolaeth ar hyn o bryd i gynyddu hyn i 24/7. Bydd gan yr uned arfaethedig 12 gwely CAMHS generig a 5 gwely Brys/Dibyniaeth Uchel. Mae CIC yn bwriadu

ymgynghori ? cyhoedd ynghylch cynlluniau i ddatblygu gwasanaeth CAMHS newydd i gleifion allanol yn y Gogledd ym mis Mai 2007. Mae'r cynigion yn argymell adeiladu cyfleusterau arbennig ar safle Ysbyty Abergele erbyn hydref 2009.

## Cydymffurfio

Mae Adran 1 o Ddeddf GIG 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad barhau i hyrwyddo gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru ac i ddarparu neu sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau. Mae Adran 2 yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cyflawni ei dyletswyddau o dan adran 1, ac i wneud unrhyw beth arall posibl a fydd yn hwyluso, neu a fydd yn ffafriol neu'n atodol wrth gyflawni'r ddyletswydd honno. Mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Un o swyddogaethau Comisiwn Iechyd Cymru yw comisiynu gwasanaethau arbenigol gan gynnwys gwasanaethau CAMHS nad ydynt yn rhan o swyddogaethau'r Byrddau Iechyd Lleol, yn rhinwedd ei swyddogaethau dirprwyedig o dan erthygl 3 o Orchymyn Awdurdodau Iechyd (Trosglwyddo Swyddogaethau, Staff, Eiddo Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2003. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud ? heoleidd-dra na phriodoldeb.

## Goblygiadau Ariannol

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o gyflwyno'r papur hwn i'w ystyried gan y Pwyllgor. Mae'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gweld a nodi cynnwys y papur hwn (NHSF3055).

## Them?Trawsbynciol

Bydd darparu gwasanaeth CAMHS cynaliadwy yng Nghymru, ar bob lefel o'r ddarpariaeth, yn sicrhau bod ymyriadau cynt a phriodol yn cael eu gwneud, a bydd yr effaith ar y gwasanaethau cymdeithasol, plant sy'n derbyn gofal, plant o fewn y system addysg, a phlant a phobl ifanc o fewn y system cyfiawnder ieuenctid yn cael ei rheoli'n well a chyda mwy o ffocws.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur hwn.

Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pwynt Cyswllt: Irene Allen, Cangen Bolisi Iechyd Plant, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol Plant.